# Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol wrth ymgymryd â gwaith ieuenctid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyflawni'r gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol sy'n effeithio ar weithgareddau gwaith ieuenctid.

Mae hefyd yn cynnwys gwneud yn siŵr bod eich gweithgareddau gwaith ieuenctid sefydliadol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol ac yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a'r egwyddorion. Byddwch yn datblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer eich sefydliad, yn monitro unrhyw achosion o dorri'r rhain, ac yn cymryd camau priodol pan fo angen.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer pob ymarferydd gwaith ieuenctid. Mae hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n gysylltiedig â rheoli gweithgareddau gwaith ieuenctid yn eu sefydliad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadw golwg ar y gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol, sefydliadol a moesegol perthnasol diweddaraf sy'n effeithio ar waith ieuenctid, a'r effaith ar eich cyfrifoldebau a'ch gweithgareddau gwaith ieuenctid chi neu rai eich sefydliad
2. datblygu polisïau a gweithdrefnau effeithiol i wneud yn siŵr bod eich sefydliad yn bodloni'r gofynion angenrheidiol
3. cadarnhau bod pobl berthnasol yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyflawni eu rôl a'u bod yn eu dilyn
4. monitro eich gweithgarwch eich hun neu eich sefydliad ar gyfer unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio ac effaith peidio â bodloni gofynion
5. cymryd camau i wneud yn siŵr bod gweithgarwch gwaith ieuenctid yn bodloni'r holl ofynion perthnasol gan gynnwys nodi unrhyw achosion o fethu â bodloni'r gofynion, rhoi gwybod amdanynt a'u cywiro
6. rhoi adroddiadau llawn am unrhyw achosion o fethu â bodloni'r gofynion i'r bobl berthnasol
7. bodloni'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol sy'n effeithio ar weithgareddau eich gwaith ieuenctid chi neu eich sefydliad
2. pwysigrwydd cyflawni gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol, ac effaith methu â gwneud hynny
3. gwerthoedd a diwylliant eich sefydliad a'u heffaith ar ei lywodraethu
4. pryderon a disgwyliadau amgylcheddol, cymdeithasol a moesegol ar hyn o bryd ac sy’n dod i’r amlwg sy'n berthnasol i waith ieuenctid
5. ffyrdd y mae sefydliadau eraill sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid yn mynd i'r afael â'r pryderon a'r disgwyliadau amgylcheddol, cymdeithasol a moesegol presennol a datblygol
6. polisïau a gweithdrefnau yn eich sefydliad a maes y gwaith ieuenctid y bwriedir iddynt wneud yn siŵr bod y gofynion yn cael eu bodloni
7. y fframwaith cyfreithiol sy'n amddiffyn eich hun ac eraill rhag camdriniaeth neu ymosodiad yn y gwaith
8. ffyrdd na ellir bodloni'r gofynion, a'r risgiau y bydd hyn yn digwydd
9. gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw achosion o dorri gofynion
10. gweithdrefnau ar gyfer mynd i’r afael â diffyg cydymffurfio, gan gynnwys y gofynion angenrheidiol ar gyfer rhoi gwybod
11. y prosesau ar gyfer cynnal polisïau a gweithdrefnau perthnasol, ac er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn effeithiol o hyd
12. y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

CLD YW03

Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol wrth ymgymryd â gwaith ieuenctid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CLD Standards Council Scotland |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CLD Standards Council |
| **RCU gwreiddiol** | LSI YW22 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ieuenctid |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Ieuenctid |
| **Geiriau Allweddol** | Ieuenctid; pobl ifanc; cyfreithiol; rheoliadol; moesegol; gofynion; cydymffurfiaeth; gweithgareddau; polisïau; gweithdrefnau; ymarfer; cynorthwyo; rhoi ar waith; atal; adrodd |